# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Iau 8 Gorffennaf 2021 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS, Gogledd Cymru |
| Mark Isherwood (MI) | AS, Gogledd Cymru |
| Llyr Gruffydd (LlG) | AS, Gogledd Cymru |
| Rhys ab Owen (RhO) | AS, Canol De Cymru |
| Tom Giffard (TG) | AS, Gorllewin De Cymru |
| Darren Millar (DM) | AS, Gorllewin Clwyd |
| Sam Kurtz (SK) | AS, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Zak Weaver (ZW) | Staff cymorth Sam Rowlands AS |
| Curtis Shea (CS) | Staff cymorth Darren Millar AS |
| Rebeckah Fudge (RF) | Staff cymorth Tom Giffard AS |
| Brody Anderson (BA) | Staff cymorth Jayne Bryant AS |
| Andrew Campbell (AC) | Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders | AS, Aberconwy |
| Ken Skates | AS, De Clwyd |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Suzy Davies am ei Chadeiryddiaeth flaenorol.
- Cynigiodd DM SR ar gyfer Cadeiryddiaeth y Grŵp, ac eiliwyd y cynnig gan SK. Etholwyd SR yn Gadeirydd.

- Cynigiodd SR Gynghrair Twristiaeth Cymru fel Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp, a derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.
- Cytunwyd yn unfrydol ar Ddatganiad o Fwriad y Grŵp, a rannwyd â phawb cyn y cyfarfod.
- Rhoddodd AGW o Gynghrair Twristiaeth Cymru gyflwyniad byr am y gynghrair, ei nodau a'i hamcanion, sef cysylltu â'r busnesau hynny nad ydynt mewn cysylltiad â'r diwydiant twristiaeth, creu rheoleiddio a threthi teg i'r diwydiant, a rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd ar faterion twristiaeth.
- Hefyd, fe ganmolodd ACC SR am greu'r Grŵp hwn, gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at fwy o gyfarfodydd yn y dyfodol, gyda mwy o aelodau'r gynghrair yn bresennol.
- Cymeradwyodd AC sylwadau SR ynghylch Cadeiryddiaeth Suzy Davies o’r Grŵp. Dywedodd mai'r prif bynciau llosg a welodd yn y diwydiant yw'r dreth dwristiaeth arfaethedig, ail gartrefi, cofrestru twristiaeth, prinder staff, trafnidiaeth, a gwneud twristiaeth yn gynaliadwy trwy gydol y flwyddyn.
- Gofynnodd SR a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau. Dywedodd MI fod llawer o fusnesau twristiaeth wedi cysylltu ag ef, a nododd fod angen gwrando arnynt.
- Cododd MI hefyd y papur gan Dwristiaeth Gogledd Cymru sy’n amlygu materion twristiaeth a chyfraddau busnes annomestig ac a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol. Cytunodd AGR ac AC â MI gan gefnogi'r papur.
- Diolchodd SR i bawb am ddod i'r cyfarfod a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gyfarfod mwy sylweddol ym mis Medi.

*Nododd SR fod Jane Dodds AS, Jayne Bryant AS, James Evans AS, Heledd Fychan AS a Buffy Williams AS wedi mynegi eu dymuniad i ymuno â'r Grŵp.